

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Llun, 2 Mehefin 2014

Amser:

14.45

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8008/8019

PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
- 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalen 1)
CLA(4)-13-14 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA403 – Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 8 Mai 2014; Fe'u gosodwyd ar: 12 Mai 2014;

Yn dod i rym ar: 1 Medi 2014.

CLA404 – Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 8 Mai 2014; Fe'u gosodwyd ar: 15 Mai 2014; Yn dod i rym ar: 15 Gorffennaf 2014

3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 2 – 5)

CLA(4)–15–14 – Papur 2 – Datganiad Ysgrifenedig 21 Mai 2014: Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd

CLA(4)–15–14 – Papur 3 – Llythyr oddi wrth Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â'r ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

CLA(4)–15–14 – Papur 4 – Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Prif Weinidog mewn perthynas â'r ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

Adroddiad Drafft ar SICM3 – Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 20142014 (Tudalen 6)

CLA(4)–15–14 – Papur 5 – Adroddiad Drafft

Sesiwn gyhoeddus

5 Tystiolaeth mewn perthynas â'r ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Tudalennau 7 – 25)

Peter Black AC (*Amser dangosol 3 – 3.30pm*)

CLA(4)–15–14 – Papur 6 – Tystiolaeth Ysgrifenedig, Peter Black AC;

CLA(4)–15–14 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

CLA (4)–15–14 – Briffio Ychwanegol

Egwyl 3.30 – 3.40pm

6 Tystiolaeth mewn perthynas â'r ymchwiliad i anghymhwys person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Tudalennau 26 – 27)
Emyr Roberts, Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru (*Amser Dangosol 3.40 – 4.10pm*)

CLA (4)–15–15 – Papur 7 – Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

7 Tystiolaeth mewn perthynas â'r ymchwiliad i anghymhwys person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (*Amser Dangosol 4.10–4.40pm*)

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) the committee is deliberating on the content, conclusions or recommendations of a report it proposes to publish; or is preparing itself to take evidence from any person,

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir
2 Mehefin 2014**

**CLA403 – Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu
Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014**

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

- (a) Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999,
- (b) Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001,
- (c) Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, a
- (d) Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006.

Bydd hyn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd") sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cynnal gan Estyn o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd yn dechrau ar 1 Medi 2014. Bydd y diwygiadau yn rhoi mwy o le i'r Prif Arolygydd amrywio'r dyddiad y caiff ysgol neu sefydliad addysg ei arolygu er mwyn gwneud arolygiadau yn llai rhagweladwy. Bydd hyn yn caniatáu i'r Prif Arolygydd arolygu'r ysgolion hynny a all fod yn achosi pryder yn fwy aml. Mewn cyferbyniad os nad oes achos pryder o'r fath caniateir i'r ysgol gael ei harolygu'n llai aml.

**CLA404 – Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014**

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dynodi sut y mae awdurdodau lleol yng Nghymru i roi gwybod i Weinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau a bennwyd ar gyfer ysgolion a gynhelir yn eu hardaloedd priodol, ac erbyn pryd y dylid rhoi gwybod amdanynt.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd

DYDDIAD 21 Mai 2014

GAN Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Ddoe, daeth Rheoliadau newydd i rym yng Nghymru ar gyfer Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd. Mae'r Rheoliadau'n disodli Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 ac maen nhw'n cydymffurfio â safonau'r Undeb Ewropeaidd.

Roedd Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) i gyflwyno rhai diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig wrth gyflwyno eu Rheoliadau diwygiedig. Dyna'r ffordd arferol o ymdrin â materion fel hyn a hyd at ddoe, roedden ni'n disgwyl i'r diwygiadau cysylltiedig hynny gael eu gwneud. Fodd bynnag, cefais wybod bod Defra wedi gosod eu Rheoliadau a'u tynnu'n ôl ar unwaith. Nid wyf wedi cael gwybod y rheswm dros hyn ac rwyf wedi ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Owen Patterson AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn mynegi fy mhryderon ynghylch yr hyn y maen nhw wedi'i wneud.

Mae dirymu Offeryn Statudol Defra yn effeithio ar waith Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol a phartneriaid eraill gan fod arnynt angen deddfwriaeth glir a phenodol. Mae gwaith brys wrthi'n cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod camau mewn lle i leddfu'r broblem yn y tymor byr a'n bod yn dod o hyd i ateb ar gyfer hirdymor. Rwyf nawr yn bwriadu cyflwyno rhywfaint o ddeddfwriaeth ddomestig dechnegol ar y deddfau canlynol:

- Deddf Drylliau 1968
- Deddf Lladd-dai 1974
- Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986
- Rheoliadau Trwyddedu Meistri Gangiau (Eithriadau) 2013

Rwyf wedi ymrwmo i sicrhau safonau lles uchel i bob anifail a gedwir yng Nghymru, bob cam o'i fywyd, gan gynnwys addeg ei ladd.



Ein cyf/Our ref: FM/00514/14

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16^{eg} Mai 2014

Annwyl David,

Anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mai 2014, ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn eich llythyr fe ofynnodd am wybodaeth ynglŷn â'r sail resymegol ar gyfer cynnwys sefydliadau yn yr Atodlen i *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2010*, gan gynnwys manylion am unrhyw feini prawf a gafodd eu defnyddio a sut y cawsant eu dewis.

Yn ôl yr hyn sydd wedi'i ddatgan ym memorandwm Llywodraeth Cymru a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor, mae'r Gorchmynion blaenorol wedi anelu at anghymhwysu:

- Deiliaid swyddi sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hynny'n cynnwys swyddi â chyflog, swyddi pensiynadwy, a rhai swyddi y telir ffi amdanynt, ond nid oedd yn cynnwys swyddi y telir treuliau yn unig ar eu cyfer. Ni ddylai swydd sydd â chyflog o lai na £10,000 y flwyddyn fod yn destun anghymhwysiad fel rheol.
- Penodiadau a gafodd eu gwneud, eu cymeradwyo neu eu cadarnhau gan y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu benodiadau yr oedd ganddynt hawl statudol i fod yn destun ymgynghori yn eu cylch.
- Deiliaid swyddi y byddai eu swyddogaethau'n peri gwrthdrawiad buddiant pe baent yn cael eu hethol fel Aelodau'r Cynulliad.
- Deiliaid swyddi nad oeddent, neu nad oeddent i bob golwg, yn ddiudedd yn wleidyddol.

Ar y cyfan, mae'r meini prawf hyn ar gyfer anghymhwysu person rhag bod yn aelod yn gyson â'r rhai hynny sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Tŷ'r Cyffredin a deddfwrfeydd datganoledig eraill. Ond, nid yw'r rhestrau yng Ngorchmynion Anghymhwysu'r Cynulliad yn adlewyrchu'r swyddi a'r gyflogaeth hynny a all beri anghymhwysiad sy'n gymwys o dan Ddeddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975. Y sail resymegol am hyn yw nad yw'r Cynulliad yn gorff y gellir ei gymharu â Thŷ'r Cyffredin, ac felly mae'r rhestrau wedi'u haddasu i ymateb yn well i sefyllfa unigryw Cymru a'i Chynulliad fel rhan o'r Deyrnas Unedig.

Cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad, caiff y Gorchymyn diweddaraf ei adolygu a'i ddiweddarau, er mwyn, er enghraifft, gael gwared ar y swyddi hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn cyfredol, ond sydd eisoes wedi'u diddymu, neu y mae eu teitlau wedi newid. Mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried a yw unrhyw swyddi newydd wedi'u creu y mae'n bosibl bod angen eu hanghymhwyso ar sail y meini prawf a amlinellir uchod. Maent hefyd yn adolygu'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso diwethaf, er mwyn ystyried a fyddai eu cadw ar y rhestr anghymhwyso'n gyfyngiad diangen. Gofynnir hefyd am gyngor cyfreithiol ar yr holl gynigion i addasu'r rhestr eithrio. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y rhestrau'n cydymffurfio â'r meini prawf anghymhwyso i'r graddau helaethaf posibl. Fodd bynnag, o ystyried maes eang y meini prawf, mae'n bosibl y gellid disgwyl gwahaniaethau yn y modd y caiff swyddi neu fathau o gyflogaeth ar y rhestrau eu trin i ryw raddau.

Fel y nodwyd ym memorandwm Llywodraeth Cymru ar gyfer y Pwyllgor, ein barn yw nad yw'r strwythurau presennol ar gyfer eithrio personau rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad yn adlewyrchu eu *raison d'être* yn iawn. Felly, rydym yn awyddus i weld sut y gellir newid y rheolau a'r egwyddorion sy'n sail i anghymhwyso, er mwyn gwella cyfranogiad ymgeiswyr, ac ar yr un pryd cadw ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cynnal. Bellach, mae'n bryd inni ystyried y meini prawf penodol y dylid eu cael ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Cynulliad, gan roi ystyriaeth i'r egwyddorion cyntaf.

Edrychaf ymlaen at argymhellion y Pwyllgor ar sut i wella a chysoni'r rheolau'r sy'n sail i anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Bydd unrhyw newidiadau i'r rheolau a gynigir yn cael eu hystyried o ddifrif gan Lywodraeth Cymru pan fyddwn yn dechrau gweithio ar gynnwys Gorchymyn Anghymhwyso nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.

Yn gywir



CARWYN JONES

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Mai 2014

Annwyl Brif Weinidog

**Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad
Cenedlaethol Cymru**

Mae'r Pwyllgor wedi dechrau casglu tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gychwynol gyda'r Comisiwn Etholiadol a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol, daeth yn amlwg nad oedd y rhesymeg dros gynnwys sefydliadau yn yr Atodlen i *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010* yn glir.

Byddai'r Pwyllgor, felly, yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y rhesymeg dros gynnwys sefydliadau yn yr Atodlen, gan gynnwys manylion unrhyw feini prawf a ddefnyddiwyd a sut y cawsant eu dewis.

Byddwn yn ddiolchgar i dderbyn y wybodaeth hon erbyn 22 Mai er mwyn ein galluogi i ystyried eich ymateb a chymryd tystiolaeth bellach er mwyn gallu cwblhau adroddiad erbyn diwedd tymor yr haf.

Yn gywir

David Melding AC
Cadeirydd

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost / Email: ruth.hatton@cymru.gov.uk

Eitem 4.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Evidence to Constitutional and Legislative Affairs Committee Inquiry into disqualification of membership from the National Assembly for Wales from Peter Black AM

This written evidence is submitted in respect of the Constitutional and Legal Affairs Committee inquiry into disqualification of membership from the National Assembly for Wales. It is a response to the petition that suggests that serving Principal Councillors should not be allowed to sit as Assembly Members due to the 'offence' of 'double-jobbing'.

Background

I was first elected to Swansea City Council in May 1984 and prior to becoming a member of the National Assembly for Wales was subsequently re-elected in 1988, 1992 and 1995. I was elected to the National Assembly and re-elected to the City and County of Swansea on the same day in 1999 and have since been re-elected to the Assembly in 2003, 2007 and 2011. In that time I was also been re-elected as a Councillor in 2004, 2008 and 2012.

In each of the elections subsequent to 1999 the electorate were aware that I carried out the part-time role of a Councillor and the full-time job of Welsh Assembly Member. In a number of council elections my opponents sought to make it an issue. Despite that I was re-elected with comfortable majorities indicating that it is not an issue for voters.

'Double-jobbing'

Throughout the period 1984 to 1999 I carried on a full-time job as a civil servant with the Land Registry as well as fulfilling my role as a Councillor. This is common with members who are below retirement age and in fact prior to the Local Government Act 2000, it was widely accepted that the role of Councillor was part time and predicated on service to the local community.

In a number of instances, prior to 1995 Councillors served on both the County and District Councils and sometimes on a Community Council as well. Only the Labour Party sought to prevent this happening but it was common practice prior to the creation of unitary authorities.

The 2000 Act brought in Executive roles but even then it was intended that non-executive councillors, of which I am one, should remain part-time.

An analysis of the declarations of interest of the current 72 members of the City and County of Swansea indicates that of the ten Executive Cabinet members, in receipt of a senior salary of £33,000 a year (more in the case of Leader and Deputy Leader), six declare other paid roles. Of the 72 Councillors 36 have other paid employment.

In terms of the 60 current Assembly Members, 12 declare remunerated Band 1 (less than 5 hours a week) jobs in addition to their full time role. Eight Assembly Members declare Band 2 (5 to 20 hours a week) jobs. Four of the latter group are Councillors.

That this is allowed is reflected in the Welsh Assembly's standing orders. There is a strand of opinion that these additional outside interests can complement the work of an Assembly Member and provide additional expertise provided that conflict of interests are avoided.

Conflicts of interest

The other argument against an Assembly Member also being a Councillor is that it creates a conflict of interest. Clearly the standing orders of the National Assembly for Wales and each Principal Council allows for the declaration of personal and pecuniary interests.

In general terms, I would argue that the chances of a conflict arising in terms of policy or the implementation of guidance for example, will only occur if the Assembly Member holds an executive role. If this were to arise then the individual member should be held accountable to the respective electorates and the various standards regimes for their actions rather than ban them outright.

The National Assembly for Wales is no longer a corporate body of course and in the case of councils most decisions are now taken by the executive with delegated powers.

I have never held an executive role or taken a senior salary whilst an Assembly Member and would not envisage doing so.

Comparsion with MPs

It is the case of course that the latest Government of Wales Bill seeks to prevent a member simultaneously being an MP and an Assembly Member. To the best of my knowledge it does not seek to prevent a member of the House of Lords being an AM, whilst it is still permissible as far as I am aware for a member of either house to become an MEP and hold that dual role.

These sorts of inconsistencies in our constitution have become commonplace as a result of the UK's asymmetric devolution settlement.

Both an MP and a Welsh Assembly Member are full-time jobs requiring attendance at venues over 150 miles apart on the same days. I would argue that it is difficult to do both jobs adequately.

In the case of being a Councillor and an AM, the former role is part-time, tends to serve the same set of constituents and can be managed in addition to the full time job through good time management. Clashes of meetings can be avoided..

Further more doing both enables a better understanding of each role and can add value to one's contribution in each case. For example I was able to assist the Council's planning committee in making representations on the Welsh Government's consultation on their planning bill.

I was also able to bring my first hand knowledge to bear in scrutinising Ministers on housing and local government bills and can call on additional expertise, not easily available to another AM, from council officers on policy matters.

Conclusion

In conclusion I would argue that there is no inherent conflict in an Assembly Member being a Principal Councillor. In fact the dual role may be mutually beneficial to the member and their electorate.

The expertise that a Councillor can bring to the role of Assembly Member and vice versa is invaluable and should not be lost.

Ultimately the decision as to whether to allow a dual role should belong to the electorate. However, I would add that in considering the disqualification rules it would be beneficial to Welsh democracy and the Assembly as a whole to make them more permissive rather than less.

We should not be looking for additional categories to exclude from candidacy but actively seeking to dismantle barriers either through removing categories or changing the way that the rules are enforced.

Peter Black
10 May 2014

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Item 6

Constitutional and Legislative Affairs Committee
Inquiry into Disqualification of Membership from the National Assembly for Wales
DQ9 – Emyr Roberts, Chief Executive, Natural Resources Wales

Ruth Hatton
Deputy Clerk,
Legislation Office,
National Assembly for Wales

(By email)
Ruth.hatton@wales.gsi.gov.uk

19 May 2014

Dear Ruth,

Thank you for inviting me to give oral evidence on behalf of Natural Resources Wales to the Constitutional and Legislative Affairs Committee in respect of your inquiry into the disqualification of membership from the National Assembly for Wales. As I have confirmed to the Committee Clerk I am able to attend on 2 June.

Ahead of my attendance, I have a few general points to make that may be helpful:

We suggest that some basic principles can guide the final decisions on the rules governing this issue and would propose the following as important:

- Rules should be designed to encourage participation and any barriers should be proportionate;
- Rules should be designed to deal with perceived conflicts as well as real ones;
- Rules should be clear and unambiguous;
- Rules should distinguish between individuals who are disqualified and office holders who are disqualified.

By way of illustration from our own context, we would suggest that there would be significant perception of a conflict of interest if one of our Board Members were to become an Assembly Member and remain as a Board Member. By contrast, if a member of staff were to become an Assembly Member, then we would suggest the perception issues could be appropriately managed during the period of an election and/or during a period of elected office, through resignation with guaranteed re-appointment if not elected and a career break if elected.

I hope these suggestions prove helpful in advance of my attendance.

Yours sincerely,

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4444



Emyr Roberts

**Prif Weithredwr
Chief Executive**